

Blaenoriaethau ac Amcanion ar gyfer Coedwig Llanuwchllyn

- Adfer a chynnal nodweddion o ddiddordeb ACA Migneint-Arenig-Ddualt sydd i'w cael o fewn y goedwig i gyflwr ffafriol, yn unol ag amcanion cadwraethol. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd Gweundir Sych a Gwlyb a Gorgors.
- Rheoli ymyl y goedwig yn briodol er budd, ac i sicrhau cyflwr ffafriol ar gyfer cynefinoedd gweundir sych a gwlyb, gorgors ac adar ysglyfaethus. Ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer rheoli megis lleiniau clustogi o goetir olynol brodorol i leihau gymaint ag sydd bosibl ar effaith conwydd sy'n hadu ac er mwyn darparu cysgod i adar sy'n nythu ar lawr megis Bodaod Tinwyn a Grugieir Duon.
- Creu strwythur coedwig ac ecosystem parhaol ac amrywiol sy'n cynnwys coetir torlannol a brodorol, gyda gwarchodfeydd naturiol a mwy o goetir olynol a chynefinoedd agored ar hyd ffyrdd a llwybrau cul y goedwig. Bydd ecosystem y coetir yn parhau i ddarparu cynefinoedd ar gyfer nifer o rywogaethau o adar, mamaliaid ac infertebratau yn ogystal ag amrywiaeth eang o fflora.
- Cynyddu nifer y coed marw sydd yn y goedwig, sy'n cynnal biota amrywiol yn ecosystem y goedwig.
- Ehangu'r rhwydwaith o goetir torlannol sy'n bodoli eisoes i ddarparu gwell dull clustogi yn erbyn gweithrediadau cynaeafu ac i helpu i wella ansawdd dŵr mewn ecosystemau dŵr croyw.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Rheoliad Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr 2017 wrth gynnal gweithgareddau, drwy ddilyn arferion gorau fel y cânt eu nodi yn 'Safon Coedwigaeth y DU – Canllawiau Coedwigoedd a Dŵr' i warchod ansawdd dŵr ac ecosystemau dŵr croyw yn y goedwig.
- Cynllunio llennyrch cwmpo coed a defnyddio systemau coedamaeth bach eu heffaith lle bo'n bosibl wrth reoli nawr ac yn y dyfodol, er mwyn lleihau'r effaith ar ansawdd dŵr yn ardal ehangach prosiect LIFE Afon Dyfrdwy, drwy leihau'r risg o waddodi, llifau brig ac asideiddio yn ogystal â lleihau effeithiau gweledol ar y dirwedd.
- Amrywio cyfansoddiad rhywogaethau'r goedwig drwy hyrwyddo strategaeth ailstocio fwy amrywiol, a fydd yn cynnwys mwy o amrywiaethau o goed llydanddail a choed brodorol yn ogystal â chonwydd cynhyrchiol.

- Gwella strwythur mewnol y goedwig drwy ddatblygu amrywiaeth o ran dosbarth ac oedran, amrywiaethau o ran meintiau coed a chymysgedd o rywogaethau pan fo'n bosibl. Gellir gwneud hyn drwy leihau systemau rheoli llwyrwympo yn raddol a sefydlu systemau coedwigaeth gorchudd di-dor yn eu lle yn y tymor hir sy'n ymaddasu'n well.
- Cael gwared ag unrhyw larwydd sydd wedi'u heintio gan *Phytophthora ramorum* ac yn y pen draw, cynllunio ar gyfer gwaredu'r ardaloedd lle ceir nifer sylweddol o larwydd o dan Strategaeth Lleihau Coed Llarwydd.
- Cynnal hyfywedd masnachol hir dymor y goedwig, drwy gynllunio cyflenwad cynaliadwy o bren, ac ar yr un pryd bodloni'r holl amcanion a blaenoriaethau eraill.
- Buddsoddi mewn seilwaith coedwig ac olrhain i ddarparu gwell mynediad i ganiatáu gweithredu'r cynllun a mwy o systemau coedamaeth bach eu heffaith wrth reoli yn y dyfodol.
- Gwarchod pob heneb a nodwedd hanesyddol wrth gynnal gweithrediadau rheoli coedwig. Efallai y bydd angen ymgynghoriad ychwanegol mewn ardaloedd archeolegol sensitif a nodwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.
- Ystyried effaith weledol gweithrediadau rheoli a chynigion hir dymor ar olygfeydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Canolbwyntir ar y cyferbyniad rhwng conwydd llawn dwf a'r dirwedd agored.
- Gwella gwerth gweledol, synhwyraidd a thirweddol y goedwig drwy gynyddu coetir brodorol.
- Cynnal a gwella cyfleoedd ar gyfer parhau i ddefnyddio ffyrdd y goedwig a hawliau tramwy cyhoeddus gan gynnwys llwybrau eraill o fewn y goedwig.
- Cynnal hawliau tramwy cyhoeddus y mae gweithrediadau cynaeafu yn effeithio arnynt, gan gynnwys cwmpo, teneuo ac ailstocio. Bydd unrhyw hawl tramwy cyhoeddus sy'n bodoli eisoes ac y mae gwaith plannu yn cael ei wneud drosto ar hyn o bryd am resymau hanesyddol, yn cael ei ailsefydlu yn unol â'r map diffiniol.
- Adfer pob Safle Coetir Hynafol trwy waredu conwydd yn raddol dros gyfnod o amser.
- Ymchwilio i gyfleoedd i gydweithio â thirfeddianwyr cyfagos, rhanddeiliaid ac ar brosiectau megis 'prosiect LIFE afon Dyfrdwy' i ddatblygu blaenoriaethau a chynlluniau a fydd yn gwella cysylltedd a gwydnwch hirdymor ecosystemau yn y dirwedd ehangach.

- Parhau i archwilio'r potensial ar gyfer prosiectau trydan dŵr ar raddfa fach, er enghraifft ar hyd afon Dyfrdwy yng Nghoedwig Penaran.